

Gweithgaredd 4 : Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd

Inge Hack - bywgraffiad a ffotograffau

BYWGRAFFIAD

Ganed Inge Hack ar 28 Ebrill 1926 yn Nuremberg (Nürnberg yn Almaeneg), yr Almaen. Cadwodd ei rhieni, Fritz a Rosa Wertheimer, eu hunaniaeth Iddewig ond anaml y byddent yn cadw at arferion neu wyliau Iddewig.

Gwaethygodd erledigaeth yr Iddewon wrth i'r blynyddoedd fynd heibio. Yn ystod pogrom *Kristallnacht* ar 9-10 Tachwedd 1938, ymosododd y Natsïaid ar gartref teuluol Inge, dwyn eu harian, a malu eu dodrefn a'u pethau gwerthfawr â morthwylion. Fis yn ddiweddarach, ym mis Rhagfyr 1938, aeth Inge ar fwrdd y Kindertransport i'r Deyrnas Unedig, lle bu'n byw gyda theulu maeth yng Nghaerdydd. Priododd ei gŵr, Lawrence Hack, ym 1950.

Cafodd ei chyfweld gan USC Shoah Foundation - The Institute for Visual History and Education ar 5 Tachwedd 1997 yn Maidstone, y Deyrnas Unedig.

KINDERTRANSPORT

Kindertransport (neu Gludiant Plant) oedd enw anffurfiol cyfres o ymdrechion achub rhwng 1938 a 1940, a ddaeth â phlant Iddewig o diriogaethau a reolwyd gan y Natsïaid i ddiogelwch. Anfonodd rhieni Iddewig eu plant ar gludiant wedi'i drefnu i fyw mewn cartrefi plant, gyda theuluoedd maeth, neu gyda pherthnasau pell ym Mhrydain, yr Iseldiroedd, neu Ffrainc. Daeth ymdrechion Kindertransport â thua 10,000 o blant i ddiogelwch ym Mhrydain.

DELWEDDAU

Daw'r holl ddelweddau o gyfweiliad Inge Hack o archif USC Shoah Foundation - The Institute for Visual History and Education, 1997. Am ragor o wybodaeth: <http://sfi.usc.edu/>.



Gweithgaredd 4 : Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd

Inge Hack - bywgraffiad a ffotograffau



Ffotograff o fam Inge, Rosa Wertheimer (ar y chwith eithaf yn y llun) ac oedolion a phlant eraill yn seremoni enwi Inge yn fabi ym 1926.

Gweithgaredd 4 : Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd

Inge Hack - bywgraffiad a ffotograffau



Ffotograff o Inge fel babi yn cael ei dal gan ei thad, Fritz Wertheimer ym 1927.



Ffotograff o barti pen-blwydd a gynhaliwyd mewn cyrchfan y tu allan i Nuremberg. Mae mam Inge, Rosa Wertheimer, ar y chwith yn y llun ac mae Inge yn eistedd wrth ei hymyl. Y ddynes arall yn y llun yw modryb Inge, Irma Ullman. Tynnwyd y llun yn y 1930au.

Gweithgaredd 4 : Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd

Inge Hack - bywgraffiad a ffotograffau



*Ffotograff o Inge yn blentyn yn dal tedi,
1931.*



Ffotograff o ddsbarth ysgol Inge (1930au). Mae Inge yn y rhes gefn, dau le i'r dde o'r ferch yng nghanol y rhes gefn. Mae gan Inge blethi hir yn y llun hwn. Y ferch yng nghanol y rhes gefn (gyda chrys gwyn a band gwallt gwyn) yw'r ffrind y mae Inge yn cyfeirio ati yn ei thystiolaeth fideo. Un diwrnod, gwaharddwyd Inge rhag chwarae gyda'r ferch hon.



Gweithgaredd 4 : Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd

Inge Hack - bywgraffiad a ffotograffau



Ffotograff o ddosbarth ysgol Inge, 1932. Mae Inge yn y rhes flaen, yn eistedd i'r chwith o'r ferch yn y ffrog sic yn nghanol y rhes flaen.



Ffotograff o Inge gydag Edith Gordon (a fu'n gofalu am Inge pan symudodd i Gymru), a dynnwyd yng Nghaerdydd, 1939.